

Protocol Rhannu Gwybodaeth rhwng

Prif Swyddog Cyllid Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Cefndir

Mae'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol ar gyfer yr heddlu yng Nghymru a Lloegr (Swyddfa Gartref – Hydref 2013) yn nodi:

“Yn unol ag adran 36 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae'n rhaid i Brif Gwnstabl roi gwybodaeth berthnasol am faterion plismona i'r CHTH. O ganlyniad i hyn mae'n rhaid i Brif Swyddog Cyllid y CHTH gael mynediad llawn i'r holl wybodaeth ariannol berthnasol. Fe ddylai'r manylion hyn gael eu gosod mewn Protocol Rhannu Gwybodaeth (PRhG) lleol, i'w gytuno arno gan y ddau Brif Swyddog Cyllid mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr...”

Mae Datganiad CIPFA ar Rôl Prif Swyddog Cyllid mewn Plismona (CIPFA – Mawrth 2018) yn nodi:

“Ni ddylai'r un PSC geisio natur gyfyngedig ar feysydd penodol cyllid. Mae'r CHTH yn gyfrifol yn y pen draw am gronfa'r heddlu. Er mwyn hysbysu'r CHTH ar strategaeth ariannol, ac er mwyn cynorthwyo arfer atebolrwydd effeithiol, rhaid i'r CHTH gael mynediad rhesymol i holl wybodaeth ariannol berthnasol a gedwir gan yr heddlu. Dylai hyn fod yn ddisgwyliad a dim trefniant wedi'i drafod...”

“Mae'r berthynas yn gweithredu yn y ddau gyfeiriad, ac mae'r llif gwybodaeth oddi wrth y CHTH i'r heddlu'r un mor bwysig. Dylai'r heddlu fod yn ymwybodol o gynlluniau a phenderfyniadau strategol a wneir gan y CHTH, a lle mae blaenoriaethau'r dyfodol o dan adolygiad...”

“Mae gan y ddau PSC hawl i dybio yr ymarferir disgrisiwn a chyfrinachedd priodol, ac y defnyddir gwybodaeth yn deg a gwrthrychol...”

“Pan sefydlir y lefel o ymddiriedaeth, bydd perthynas sy'n gilyddol gynorthwyol yn seiliedig ar rannu gwybodaeth yn agored yn creu'r amgylchfyd yn naturiol. Gellir ymdrin â heriau mwy manwl megis blaenoriaethau gwrthdrawiadol neu'r angen i ymarfer grymoedd ffurfiol o ran cyfreithlondeb neu sefydlogrwydd ariannol yn esmwyth heb achosi tensiwn diangen. Tra mae'r

ddeddfwriaeth yn gosod gwahaniaeth statudol rhwng y ddwy rôl PSC, cynyddir ei effeithiolrwydd os yw'r unigolion sy'n dal y rolau hynny yn datblygu perthynas waith sy'n eu galluogi i wahanu'r agweddau statudol a phersonol. Eu rôl yw hwyluso'r berthynas rhwng y corfforaethau undyn. Er mwyn gwneud hynny rhaid iddynt weithio gyda'i gilydd, nid yn annibynnol."

Y Protocol

Er mwyn bodloni gofynion yr ymrwymiadau hyn, mae Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau'r Prif Gwnstabl yn cytuno i rannu gwybodaeth ariannol a gwybodaeth fusnes.

Bydd y dulliau o wneud hyn yn cynnwys (ond nid ydynt yn gyfyngedig i):-

- Bydd gan y Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau fynediad llawn i gofnodion ariannol y ddwy gorfforaeth undyn.
- Bydd gwybodaeth sydd yr union yr un fath yn cael ei darparu ar ran pob corfforaeth undyn ar gyfer cyfarfodydd mewnol a chyfarfodydd cyhoeddus.
- Bydd Prif Swyddog Cyllid Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn mynychu cyfarfodydd y Cydbwyllgor Archwilio.
- Bydd y system gyllid yn cael ei defnyddio gan y ddwy gorfforaeth undyn. Bydd y strwythur codau yn galluogi trafodion i gael eu gwahaniaethu rhwng y ddau endid.
- Bydd y Tîm Cyllid yn cael ei rannu gan y Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.
- Bydd Prif Swyddog Cyllid y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn cyfarfod yn rheolaidd (o leiaf unwaith y mis) er mwyn cyfnewid gwybodaeth.

K Jackson

S Phillips

Dyddiad: 3 Mawrth 2020

Dyddiad: 2 Mawrth 2020

Kate Jackson
Prif Swyddog Cyllid
Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Seb Phillips
Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
Y Prif Gwnstabl